## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 10 Hydref 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Laura Anne Jones (De Ddwyrain Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau yr ymgynghorir â phwyllgorau craffu awdurdodau lleol ar faterion pwysig cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron cabinet y cyngor. (WAQ44331)

**Laura Anne Jones (De Ddwyrain Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau y caiff pawb yr ymgynghorir â hwy eu trin yn gyfartal gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag adroddiadau craffu cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron cabinet y cyngor. (WAQ44332)

**Laura Anne Jones (De Ddwyrain Cymru ):** Pa ganllawiau a gwaith monitro arfer gorau a gyflwynwch er mwyn sicrhau na chaiff sylwadau aelodau a etholwyd yn lleol eu hanwybyddu mewn adroddiadau craffu a pha weithdrefnau sydd ar waith i ymdrin â chwynion am y materion hyn. (WAQ44333)